

Canllaw Cyfryngau Myfyrwyr



Cynnwys

Croeso gan UCM	2
Croeso gan NUJ	3
Croeso gan <i>Journo Resources</i>	4
Beth yw UCM?	5
NUJ a chyfryngau myfyrwyr	6
Rheolau ymddygiad NUJ	8
Cyfryngau myfyrwyr o fewn mudiad y myfyrwyr	10
Polisi golygyddol cyfryngau myfyrwyr	11
Undebau myfyrwyr fel deunydd golygyddol	12
Undebau myfyrwyr fel deunydd darlledu	14
Deunydd amlgyfrwng ar-lein	14
Awgrymiadau ffrydio byw ar gyfer gorsafoedd	16
Cytundeb Cyfryngau Myfyrwyr	18
Deall difenwi - yr hyn sydd angen i chi ei wybod	20
Cyngor a hyfforddiant ar newyddiaduraeth	25
Ffynonellau hyfforddiant eraill	26

Croeso gan NUS

Cyfryngau myfyrwyr yw un o gonglfeini corff myfyrwyr gweithgar ac ymgysylltiedig. Nid yn unig y mae'n hyfforddiant pwysig i bobl ifanc sy'n gobeithio cael gyrfa yn y cyfryngau, mae hefyd yn rhoi gwybod i'r corff myfyrwyr ehangach am ddigwyddiadau a newyddion ar eu campws. Mae'n diddanu ac yn addysgu darllenwyr, gwrandawyr a gwylwyr, yn ogystal â dal sefydliadau o gwmpas y brifysgol i gyfrif. Ond gwyddom fod pob papur newydd, gorsaf radio a theledu a llwyfan ar-lein yn wahanol, ac o'r herwydd maent yn wynebu heriau unigryw.

Gobeithiwn y bydd y ddogfen arweiniad hon yn helpu cyfryngau myfyrwyr ac undebau myfyrwyr i gydweithio wrth gefnogi a hyrwyddo llais ein haelodau sy'n astudio ledled y DU. Rydym wedi gweld bod y pŵer sydd gan fyfyrwyr wrth drefnu o gwmpas buddiannau cyffredin yn gallu newid y byd o'u hamgylch. Bydd UCM yn parhau i roi cymorth i gyfryngau myfyrwyr i gymryd y pŵer hwnnw a'i wthio i mewn i'n campysau a'n cymunedau lleol.




Croeso!

Croeso gan NUJ

Mewn byd gwaith sy'n newid drwy'r amser, mae undebau yn ffynhonnell gymorth hanfodol ac yn ffordd o sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed a bod eich hawliau'n cael eu parchu'n iawn. Mae myfyrwyr newyddiaduraeth a'r rhai sy'n gweithio ym maes cyfryngau myfyrwyr yn cael croeso gan yr NUJ, ac mae ein rhwydwaith o ganghennau a digwyddiadau yn ffordd wych o gyfarfod â newyddiadurwyr sefydledig a darganfod mwy am sut mae'r diwydiant yn gweithio. Boed yn fater o fynd i'r afael â mellith interniaethau di-dâl, rhoi mynediad i hyfforddiant proffesiynol parhaus fforddiadwy, ymgyrchu ar ryddid y wasg a moeseg, cynnig cyngor ar hawlfraint, sicrhau gwell cyflog neu eich cynrychioli yn y gwaith, mae'r NUJ yno i chi yn ystod pob cam o'ch gyrfa mewn newyddiaduraeth.

Ymunwch â ni er mwyn i chi fod yn rhan o'n gwaith. Fel aelod sy'n fyfyrwr, gallwch chi fynychu digwyddiadau'r NUJ, cael cyngor ar newyddiaduraeth foesegol a chael gafael ar eich cerdyn myfyrwr NUJ eich hun a fydd yn helpu gyda'ch gwaith. Dysgwch fwy am yr NUJ, ac ymgeisiwch i ymuno â'r NUJ ar-lein heddiw, yn www.nuj.org.uk



Croeso gan *Journo Resources*

Gall dechrau gyrfa yn y cyfryngau fod yn anodd, ond mae gweithio gyda chyfryngau myfyrwyr yn un o'r profiadau mwyaf gwerthfawr a all eich helpu i gymryd eich camau cyntaf. Yn ogystal â rhoi lle i chi ymarfer a chael hyfforddiant, gall ddarparu amgylchedd a chymuned gefnogol ar eich campws a ledled y wlad.

Mae *Journo Resources* yn cynnig cefnogaeth i unrhyw bobl ifanc sydd am gyfranogi mewn cyfryngau myfyrwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n symud ymlaen i hyfforddiant pellach, eu swyddi cyntaf a thu hwnt. Gyda chymorth partneriaid yn y diwydiant, nid ydym yn codi tâl am ein gwasanaeth, ac rydym yn darparu hyfforddiant ac offer, yn ogystal â rhestrau o swyddi cyflogedig ac interniaethau, cynlluniau gwobrwyo, mentora a chyllido. Rydym yn cyhoeddi manylion ar ddata cyflogau, cyfraddau tâl newyddiadurwyr llawrydd a chynghor manwl ar yrfaedd, clinigau CV a sut i gynnig syniadau, a digwyddiadau ymarferol ledled y wlad.

Gallwch ganfod mwy yn www.journoresources.org.uk a thrwy ein dilyn ni ar gyfryngau cymdeithasol @JournoResources .



Beth yw UCM?

Mae UCM yn annog myfyrwyr i lunio dyfodol addysg - a chreu gwell byd.

Rydym yn hyrwyddo, amddiffyn ac ymestyn hawliau myfyrwyr. Rydym yn ymladd yn erbyn camwahaniaethu, unigeddd ac anghyfiawnder. Trwy wybodaeth ymarferol a gweithredu cenedlaethol, rydym yn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu ffynnu. Rydym yn cefnogi ac yn cryfhau myfyrwyr a'u hundebau. Rydym yn wybodus - gan ddatblygu ymchwil sy'n dylanwadu ar bolisi cenedlaethol. Rydym yn weithgar - gan fynd i'r afael â'r holl faterion sy'n effeithio ar fywydau myfyrwyr, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn adnabod myfyrwyr. Myfyrwyr ydym ni. Rydym yn saith miliwn o leisiau myfyrwyr.

Beth yw Undeb Myfyrwyr?

Undeb myfyrwyr yw corff cynrychioli myfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgol neu goleg. Mae undebau myfyrwyr yn y DU yn fudiadau cryf a bywiog,

lle mae myfyrwyr yn aml yn sylweddoli eu gwir botensial wrth astudio.

Boed hynny drwy gymryd rhan mewn clwb chwaraeon neu gymdeithas, drwy arwain ymgyrch i wella eu hamgylchiadau eu hunain a'u cyd-fyfyrwyr, neu drwy gael eu hethol i arwain yr undeb fel swyddog sabothol, mae myfyrwyr wedi elwa o gyfranogi yng ngweithgareddau eu hundeb myfyrwyr ers degawdau.

Beth yw cyfryngau myfyrwyr?

Dan arweiniad myfyrwyr prifysgol neu goleg, gall cyfryngau myfyrwyr gynnwys papurau newydd neu gylchgronau, deunydd ar-lein, a rhaglenni teledu neu radio.

Bydd gan bob man astudio ei berthynas unigryw ei hun gyda'i amrywiaeth o gyfryngau myfyrwyr. Caiff rhai eu cyllido gan y sefydliad, rhai gan undeb y myfyrwyr; mae rhai wedi'u lleoli yn undeb y myfyrwyr, a gall eraill fod yn hollol ar wahân gydag annibyniaeth olygyddol gyflawn.

NUJ a chyfryngau myfyrwyr

Mae Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) yn undeb llafur annibynnol sydd wedi cynrychioli newyddiadurwyr ar draws diwydiant y cyfryngau yn y DU ac Iwerddon ers dros 100 mlynedd. Yr NUJ yw'r llais ar gyfer newyddiadurwyr a newyddiaduraeth - mae'n fudiad ymgyrchu gweithgar ar ran yr aelodaeth sy'n hyrwyddo rhyddid a moeseg cyfryngau.

Mae'r NUJ yn siarad ar ran mwy na 30,000 o aelodau ac aelodau'r NUJ sy'n gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau a pholisïau undebau. Mae'n agored i fyfyrwyr ac aelodau ifanc sy'n gweithio ar draws y diwydiant - fel newyddiadurwyr llawrydd, gweithwyr achlysurol a staff ar bapurau newydd, asiantaethau newyddion, cylchgronau, gwasanaethau ar-lein, cyhoeddi llyfrau, cysylltiadau cyhoeddus a ffotograffwyr.

Gall unrhyw un dros 16 oed sydd mewn addysg uwch neu addysg bellach ddod yn aelod â statws myfyriwr o'r NUJ - mae croeso i bobl ymuno â'r NUJ os ydynt yn astudio newyddiaduraeth neu bwnc cysylltiedig; neu'r rheiny sy'n ymwneud â chyfryngau myfyrwyr.

Dyma rai o'r manteision sy'n perthyn i fod yn aelod o'r NUJ:

- Cerdyn y wasg NUJ i fyfyrwyr;
- aelodaeth o'ch cangen leol o'r NUJ;
- cynadleddau a digwyddiadau rhwydweithio;
- gwybodaeth a chyngor ar yrfaedd;
- gostyngiadau ar rai dyfeisiadau Apple Mac;
- cylchlythyrau a chylchgrawn yr NUJ am ddim;
- cyfleoedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau' undeb.

Meddai Michelle Stanistreet, ysgrifennydd cyffredinol yr NUJ:

"Mae eich cerdyn NUJ yn basbort hanfodol i'ch gyrfa yn y cyfryngau. Gall dechrau gyrfa mewn newyddiaduraeth fod yn anodd, mae'r gystadleuaeth yn ffyrnig - mae cyflogwyr yn barod iawn i gymryd mantais o newyddiadurwyr newydd. Mae angen i chi amddiffyn eich buddiannau yn y gwaith trwy ymuno â'r NUJ"

Mae'r undeb hefyd yn ymladd dros -

- **Hawliau cyflogaeth** mae'r NUJ yn ymgyrchu i wneud gweithwyr cyfryngau'n ymwybodol o'u hawliau yn y gwaith - a sut i'w defnyddio.
- **Gwell cyflog ac amodau:** mae gweithleoedd sydd ag undebau yn cynnig gwell cyflogau a gwyliau.
- **Newyddiaduraeth foesebol:** mae fframwaith moesebol yr undeb wedi'i gynnwys yng nghod ymddygiad yr NUJ ac mae gan yr undeb amryw o ganllawiau ar greu adroddiadau moesebol ar gael ar-lein.
- **Lluosogrydd y cyfryngau:** mae'r undeb yn ymgyrchu dros newyddiaduraeth o ansawdd da, rheoleiddio annibynnol a diwygio perchnogaeth y cyfryngau.
- **Cydraddoldeb:** mae'r NUJ yn herio pob math o anghydraddoldeb a chamwahaniaethu yn y gwaith ac mae am i newyddiadurwyr gael cydbwysedd rhwng y gwaith a'u bywyd personol.
- **Ymladd dros ein BBC:** mae'r NUJ yn cefnogi gwasanaeth darlledu cyhoeddus ac yn ymgyrchu yn erbyn toriadau.
- **Interniaid:** mae'r undeb yn helpu pobl sydd wedi gweithio am ychydig iawn o arian, neu am ddim, i gael yr isafswm cyflog cenedlaethol.
- **Hyfforddiant:** mae'r undeb yn darparu hyfforddiant proffesiynol a hyfforddiant undeb llafur i aelodau'r NUJ.

Mae gwefan yr undeb yn cynnwys llawer o wybodaeth am y diwydiant ac mae'n cynnig cyngor a chefnogaeth i holl aelodau'r NUJ, gan gynnwys canllawiau ar newyddiaduraeth foesebol a chymorth pan fyddwch am godi materion penodol, er enghraifft:

- iechyd meddwl, salwch meddwl a marwolaeth drwy hunanladdiad;
- oedran, hil, LHDT a thrais yn erbyn menywod;
- briffio cyfreithiol ar ystod o faterion, gan gynnwys gwyladwriaeth a difenwi;
- diogelu data a newyddiaduraeth - canllaw i'r cyfryngau.

Cod ymddygiad yr NUJ ar gyfer newyddiaduraeth foesebol:

www.nuj.org.uk/about/nuj-code/

Mae canllawiau'r NUJ ar reportio ar gael yn adran adnoddau gwefan yr NUJ:

www.nuj.org.uk/about/nuj-resources/

Os ydych chi am ymuno â'r NUJ, gallwch:

- ffonio'r NUJ o unrhyw le yn y DU ar 020 7843 3700;
- ffonio NUJ yr Iwerddon ar 01 8170340;
- ymuno â'r undeb ar-lein: www.nuj.org.uk/join;
- e-bost: membership@nuj.org.uk.

Mae aelodaeth o'r NUJ i fyfyrwyr yn daliad untro, ac mae aelodaeth yn dod i ben pan fyddwch chi'n gadael y brifysgol. Serch hynny, os ydych chi wedi bod yn aelod â statws myfyriwr, gallwch gael gostyngiad o 50 y cant ar aelodaeth dros dro o'r NUJ a gostyngiad o 25 y cant ar eich ffioedd aelodaeth os ydych chi'n gyflogedig fel newyddiadurwr llawn-amser.

Cod Ymddygiad yr NUJ

Dylai cyfryngau myfyrwyr fod yn annibynnol, yn gywir ac yn foesegol yn eu gweithgareddau a'r hyn maent yn adrodd arno. Hoffai'r NUJ a'r UCM annog holl gyfryngau myfyrwyr i gadw at god ymddygiad yr NUJ ar gyfer newyddiadurwyr.

Mae cod ymddygiad yr NUJ wedi gosod prif egwyddorion newyddiaduraeth y DU ac Iwerddon ers 1936. Rhaid i bob newyddiadurwr sy'n ymuno â'r NUJ (gan gynnwys yr aelodau hynny sy'n gweithio ym maes cyfryngau myfyrwyr) gytuno i gadw at ei egwyddorion proffesiynol'

Rydym yn eich annog i ddarllen a chefnogi'r cod ymddygiad. Os ydych chi'n aelod o'r NUJ a bod gennych chi ymholiadau am y cod a sut mae'n gweithio'n ymarferol, cysylltwch â chyngor moeseg yr undeb: ethics@nuj.org.uk

Mae cod ymddygiad yr NUJ yn datgan y dylai newyddiadurwr –

1. bob amser gynnal ac amddiffyn yr egwyddor o ryddid y cyfryngau, yr hawl i ryddid mynegiant a hawl y cyhoedd i gael gwybod.
2. gwneud ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a gaiff ei mynegi yn cael ei chyfleu yn onest, yn gywir ac yn deg.
3. gwneud eu gorau glas i gywiro camgymeriadau niweidiol.
4. gwahaniaethu rhwng ffaith a barn.
5. cael gafael ar ddeunydd trwy ddulliau gonest, syml ac agored, ac eithrio ymchwiliadau sydd er lles y cyhoedd ac sy'n cynnwys tystiolaeth na ellir ei chanfod drwy'r dulliau arferol.
6. osgoi gwneud unrhyw beth sy'n ymyrryd â bywyd preifat, galar neu drallod unrhyw un, oni bai y gellir cyfiawnhau hynny oherwydd bod angen i'r cyhoedd gael gwybod beth sy'n digwydd.
7. amddiffyn hunaniaeth ffynonellau sy'n cyflenwi gwybodaeth yn gyfrinachol a'r deunydd a gasglwyd yn ystod eu gwaith.
8. gwrthsefyll bygythiadau neu unrhyw gymhellion eraill i ddylanwadu, gwyrddroi neu atal gwybodaeth a pheidio manteisio'n annheg o'r wybodaeth a ganfuwyd yn ystod eu dyletswyddau cyn i'r wybodaeth ddod i sylw'r cyhoedd.
9. peidio â chynhyrchu unrhyw ddeunydd sy'n debygol o arwain at gasineb neu gamwahaniaethu ar sail oedran, rhywedd, rhyw, hil, lliw croen, cred, statws cyfreithiol, anabled, statws priodasol, neu gyfeiriadedd rhywiol unrhyw un.
10. peidio â chymeradwyo ar ffurf hysbysebu unrhyw gynnyrch neu wasanaeth masnachol drwy gyflwyno datganiad, defnyddio eich llais neu wneud ymddangosiad, ac eithrio at ddibenion hyrwyddo eu gwaith eu hunain neu'r cyfrwng y cyflogir hwy ynddo.
11. fel rheol, gofyn am ganiatâd oedolyn priodol wrth gyfweld neu dynnu llun plentyn ar gyfer stori ynglŷn â'u lles.
12. osgoi llên-ladrad.

Dylai newyddiadurwyr fyfyrwyr hefyd fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol gan gynnwys rheoliadau penodol ar gyfer darlledwyr, a'r rheiny sy'n gweithio ym maes newyddiaduraeth mewn print ac ar-lein (neu ar draws gwahanol lwyfannau) lle bo'n briodol. Dylai cyhoeddiadau ac undebau myfyrwyr ddarparu hyfforddiant digonol o safon uchel i newyddiadurwyr myfyrwyr. Dylid darparu hyfforddiant gan newyddiadurwyr proffesiynol lle bo modd gwneud hyn, mewn meysydd megis newyddion, eitemau nodwedd, newyddiaduraeth ddigidol, is-olygu a chynhyrchu, cynhyrchu a golygu radio a theledu ac o ran y gyfraith sy'n effeithio ar newyddiadurwyr; 'yn arbennig hawlfraint, enllib, ac agweddau allweddol eraill ar gyfraith y cyfryngau'.

Cyfryngau myfyrwyr o fewn mudiad y myfyrwyr

Mae cyfryngau myfyrwyr yn rhan ganolog o fudiad y myfyrwyr. Mae'n darparu cyfleoedd gwych i fyfyrwyr ennill profiadau newydd a datblygu eu sgiliau a all ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer amrywiaeth o yrfaeoddd yn y cyfryngau. Mae'n fodd o hysbysu a difyrru myfyrwyr a darparu gwybodaeth allweddol am yr hyn sy'n digwydd yn eu campws, coleg neu brifysgol, yn lleol neu ym mudiad y myfyrwyr yn ehangach.

Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn dal y brifysgol, coleg, undeb y myfyrwyr neu UCM i gyfrif, yn ogystal â darparu atebolrwydd, ymwybyddiaeth a hwyluso swyddogaethau democrataidd y sefydliadau hyn.

Yn union fel yr ystyrir bod y cyfryngau cenedlaethol yn 'bedwerydd conglfaen' unrhyw gymdeithas ochr yn ochr â'r llysoedd, y Senedd a'r Llywodraeth, ac yn hanfodol i ddinasyddiaeth wybodus, cyfryngau myfyrwyr yw 'pedwerydd conglfaen' mudiad y myfyrwyr - ac mae cyfryngau myfyrwyr bywiog, safonol ac ymgysylltiedig yn gwneud mudiad y myfyrwyr cymaint â hynny'n gryfach.

Mae yna amrywiaeth enfawr o ffyrdd y gall cyfryngau myfyrwyr ac undebau myfyrwyr gydweithio. Gallai perthnasoedd ffurfiol gynnwys yr orsaf radio neu bapur newydd a.y.b. wedi'u lleoli yn undeb y myfyrwyr, wedi'u hariannu gan undeb y myfyrwyr neu'n gwbl annibynnol.

Fodd bynnag, waeth beth fo'r berthynas, bydd cyfryngau myfyrwyr a'r UM bob amser wedi'u cysylltu'n glòs â'i gilydd. Mae undebau myfyrwyr yn ganolbwynt bywyd myfyrwyr ar y campws, felly byddant yn aml yn ffynhonnell dda ar gyfer straeon am gyfleoedd, prosesau democrataidd, a myfyrwyr eu hunain.

Nid oes mo'r fath beth â ffordd berffaith o strwythuro cyfryngau myfyrwyr o fewn undeb y myfyrwyr, ac yn wir mewn rhai achosion, mae cyfryngau myfyrwyr yn cael eu rhedeg yn gwbl annibynnol o undeb y myfyrwyr.

Bydd rhai cyfryngau'n ethol eu timau, a bydd eraill yn penodi trwy broses gyfweiliadau. Bydd gan rai swyddog sabothol fel golygydd, tra bod eraill dan arweiniad gwirfoddolwyr.

Bydd hefyd gwahanol brosesau o ran penderfynu ar y cynnwys, er y dylai UMa sicrhau bod papurau'n annibynnol yn olygyddol.

Polisi golygyddol cyfryngau myfyrwyr

Mae cyfryngau myfyrwyr yn gweithio orau pan mae'n gwybod pwy yw ei gynulleidfa a beth mae'r gynulleidfa honno ei eisiau, rhywbeth y dylid ei gynnwys yn eu polisi golygyddol, gan fanylu ar beth maen nhw'n ei wneud a'r hyn dydyn nhw ddim yn ei wneud.

Gallai hyn gynnwys anelu at gymysgedd olygyddol o newyddion, barn, eitemau nodwedd, y celfyddydau, chwaraeon, gwleidyddiaeth a busnes. Mae angen cadw'r polisi hwn yn gyfoes, i wneud yn siŵr ei fod yn parhau'n berthnasol ac o fewn cyrraedd, a bod pawb sy'n gweithio ar gyfryngau myfyrwyr yn gwybod beth yw cynnwys y datganiad o genhadaeth sy'n berthnasol i ble maent yn gweithio.

Mae cyfryngau myfyrwyr yn gweithio orau pan fydd:

- **yn cynnwys newyddion sy'n apelio at amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch** - mae prifysgolion a cholegau'n gymunedau cymysg. Nid yw myfyrwyr i gyd yr un fath, dydyn nhw ddim yn mynd i'r un digwyddiadau, nac yn ymuno â'r un clybiau a chymdeithasau, felly yn ddelfrydol dylech gynnwys amrywiaeth barn mor eang â phosib;
- **yn adlewyrchu diddordebau myfyrwyr** - gwleidyddiaeth, sgandal, pris cwrw, chwaraeon, canfod swydd, sut i wneud y defnydd gorau o fenthyciad myfyrwyr - ac nid yw'n seiliedig ar agendâu newyddion cenedlaethol neu'n ddbynnol ar bolisiau undeb y myfyrwyr;
- **yn meddwl yn lleol** - beth sy'n digwydd ar y campws neu yn y gymuned leol? Pwy sy'n hawlio gormod mewn treuliau? Faint wnaeth hynny gostio? Meddylwch sut mae materion cenedlaethol yn effeithio ar fyfyrwyr yn lleol a sut mae newyddion lleol yn cyd-fynd neu'n effeithio ar yr agenda newyddion cenedlaethol;

- **yn ymgyrchu** - dylai cyfryngau myfyrwyr 'gael cyfle gwych i fod yn llais ymgyrchu ar ran myfyrwyr.' Gallai hynny olygu rhoi cefnogaeth i ymgyrchoedd yr UM neu o bosib ymgyrchu dros weithredu ar ran yr UM pan nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud.

Enghraifft o hyn fyddai *The Ripple* yng Nghaerlŷr, yn herio ei undeb;

- **yn hyrwyddo democratiaeth** - mae cyfryngau myfyrwyr mewn sefyllfa ddelfrydol i ennyn diddordeb mewn etholiadau undeb myfyrwyr - weithiau dim ond nifer isel o fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn etholiadau. Gall newyddiadurwyr helpu i gyfleu beth mae'r ymgeiswyr yn sefyll drosto i gorff y myfyrwyr, a pham ei bod yn bwysig eu bod yn mynd ati i bleidleisio. Mae'r rheiny o fewn y Brifysgol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn aml yn defnyddio nifer isel y pleidleiswyr yn etholiadau'r undeb i gyfiawnhau anwybyddu materion a godir gan fyfyrwyr drwy'r undeb neu strwythurau pwyllgorau eraill. Felly, gall cynyddu diddordeb mewn etholiadau myfyrwyr gael effaith gadarnhaol ar feysydd eraill. Mae'r un peth yn wir am gyfarfodydd undeb y myfyrwyr, penderfyniadau, Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a.y.b.

Undebau myfyrwyr fel deunydd golygyddol

Gall unrhyw un godi papurau newydd cenedlaethol a darllen am yr hyn y mae'r llywodraeth yn ei wneud, ond mae cyfryngau myfyrwyr mewn sefyllfa unigryw i son am yr hyn sy'n digwydd yn eu hundeb myfyrwyr a'r materion hynny sy'n effeithio ar fyfyrwyr yn y gymuned leol. Felly mae'n gwneud llawer o synnwyr i fyfyrwyr newyddiadurwyr fanteisio ar hyn. Gall canolbwyntio ar bynciau lle gallwch fod yn arbenigwr, cael mynediad at sylwadau, a chael mynediad at y rhai yr effeithir arnynt (y myfyrwyr ar eich campws) wneud eich cynnwys yn fwy deniadol.

Mae trafod gweithgareddau undeb y myfyrwyr hefyd yn hynod o bwysig i gynnal democratiaeth iach ar y campws. Mae mwy i ddemocratiaeth na dim ond pleidleisio - dylai gynnwys hysbysu eich cynulleidfya, craffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, mynegi barn eich darllenwyr ac ymgysylltu â'r gynulleidfya leol. Mae democratiaeth yn gweithio orau pan mae pobl yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, a phan fo cyfleoedd da i ddal y rhai sydd mewn grym i gyfrif ac i lobio neu ymgyrchu er mwyn dylanwadu ar y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud.

Mae hyn yr un mor bwysig o fewn mudiad y myfyrwyr ag unrhyw le arall. Bydd cyfryngau myfyrwyr cryf yn chwarae rhan allweddol mewn codi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'r

coleg neu brifysgol, undeb y myfyrwyr ac UCM yn ei wneud - boed yn dda neu'n wael!

Serch hynny, dylai cyfryngau myfyrwyr hefyd sicrhau bod barn leiafrifol, na chynrychiolir drwy etholiadau, yn dal i gael ei chlywed. Dylai ... sicrhau bod barn leiafrifol na chafodd ei chynrychioli drwy ganlyniadau etholiad yn dal i gael ei chlywed. Er enghraifft, bydd yn craffu ar gyllid undeb y myfyrwyr yn ogystal â chadw llygad ar bolisiau ac arferion, gwariant a threuliau swyddogol ac answyddogol.

- Mae'n syniad edrych ar agendâu cyfarfodydd arfaethedig yr undeb a'r brifysgol i weld a fydd unrhyw beth diddorol yn cael ei drafod, a mynd ati i hyrwyddo cyfarfodydd a gweithgareddau cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt ddigwydd.
- Os ydych chi'n clywed am rywbeth sy'n digwydd ar y campws a allai fod yn stori, ceisiwch ganfod amrywiaeth barn a chynifer o safbwyntiau â phosib. Edrychwch yn ofalus ar y ffeithiau, gan wneud yn siŵr eich bod yn gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barn. Mae eich undeb yn lle rhagorol i ofyn am farn, ac yn aml gall eich darparu â sylwadau, mewnwelediad neu drafodaeth.
- Meddyliwch am straeon yn nhermau eu perthnasedd i'r undeb neu'r myfyrwyr a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw - os ydych chi'n ysgrifennu am wasanaeth myfyrwyr allweddol, ceisiwch ganfod pwy sy'n ei redeg a gofynnwch am sylwadau, e.e. neuaddau myfyrwyr, llyfrgell, cyfleusterau arlwyo a.y.b.
- Cofiwch fod dwy ochr i bob stori, felly wrth ysgrifennu am yr undeb, mae'n werth siarad â chynifer o ffynonellau â phosibl - gall hyn gynnwys swyddog undeb y myfyrwyr neu staff coleg. Cyn ysgrifennu unrhyw beth, boed yn bositif neu'n negyddol, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r rydych chi'n ei ysgrifennu.
- Fel gydag unrhyw sefydliadau eraill y gallech ddelio â nhw fel newyddiadurwr, mae'n ddefnyddiol datblygu perthynas waith dda gyda'ch undeb myfyrwyr a chysylltiadau lleol eraill waeth beth yw natur y darn rydych chi'n ei ysgrifennu. Mae pobl yn ymateb orau pan fyddant yn teimlo, boed y darn rydych chi'n ei ysgrifennu'n bositif neu'n negyddol amdanynt, eich bod ymdrin â'r pwnc yn deg a'ch bod yn edrych ar bob ochr o'r stori.

Undebau myfyrwyr fel deunydd i'w ddarlledu

Yn ogystal â chod ymarfer yr NUJ, mae rheolau ychwanegol yn berthnasol i ddeunydd a ddarlledir ar orsafoedd teledu neu radio. Caiff hyn ei reoleiddio gan Ofcom, y corff gwarchod ar gyfer darlledu yn y DU. Er bod y rheolau, yn dechnegol, ond yn berthnasol i orsafoedd sydd â thrwydded i ddarlledu (er enghraifft, ar radio FM neu DAB, neu ar deledu lloeren) yn gyffredinol mae'n cael ei ystyried fel arfer da i gydymffurfio â'r rhain mewn unrhyw adroddiadau ar orsaf deledu neu radio eich prifysgol.

Mae cod Ofcom yn cynnwys 10 adran allweddol:

- amddiffyn pobl dan 18 oed;
- niwed a sarhad;
- trosedd, anhrefn, casineb, camdriniaeth;
- crefydd;
- bod yn ddiuedd a chywir;
- etholiadau a refferenda;
- tegwch;
- preifatrwydd;
- cyfeiriadau masnachol ar deledu;
- cyfeiriadau masnachol ar radio.

Mae manylion llawn i'w gweld ar wefan Ofcom:

www.ofcom.org.uk/ [codau radio-ar-alw](#) / [codau darlledu](#) / [cod darlledu? lang = c](#)

Deunydd amlygrwng ar-lein

Fel y soniwyd eisoes, nid yw canllawiau Ofcom yn berthnasol i ryddhau fideos ar-lein (megis ar YouTube, Facebook neu gyfryngau cymdeithasol eraill), fodd bynnag, dylai cyhoeddiadau ddilyn arfer gorau drwy edrych ar ganllawiau Ofcom.

Bydd gan wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu telerau ac amodau eu hunain a pholisïau sy'n ymwneud â chynnwys y gellir eu postio ar y lwyfannau hynny. Dylai'r rheiny sy'n cyhoeddi deunydd ymgyfarwyddo â'r rheolau hyn, er mwyn osgoi cael eu cynnwys wedi'i ddileu.

Wrth ddod o hyd i ddeunydd o gyfryngau cymdeithasol, dylai newyddiadurwyr barhau i gadw at reolau hawlfraint a gwirio ffeithiau. Hyd yn oed os yw fideo wedi ei bostio ar gyfryngau cymdeithasol, dylent ofyn am ganiatâd gan y person sydd wedi ffilmio'r darn - (sydd ddim o reidrwydd y sawl â'i postiodd). Dylai cyhoeddwr hefyd wirio â'r person a ffilmiodd y darn (sef y ffynhonnell wreiddiol) er mwyn sicrhau ble a phryd y cafodd ei gymryd. Mae gwefan www.firstdraftnews.org hefyd yn darparu adnoddau am ddim ar sut i wirio bod cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn gywir.

Wrth ffrydio byw (p'un ai ar gyfryngau darlledu neu gyfryngau cymdeithasol) dylai cyhoeddwr hefyd fod yn ymwybodol o heriau a pheryglon ychwanegol - er enghraifft gwesteion neu'r cyhoedd yn rhegi, diogelwch mewn sefyllfaoedd sy'n newid, a.y.b. Dylai cyhoeddwr gymryd camau i liniaru hyn drwy ddarparu hyfforddiant i'r rheiny sy'n ymwneud â darllediadau byw, gan baratoi gwesteion yn drylwyr cyn iddynt ymddangos, a gosod cynlluniau wrth gefn.

Dylai cyhoeddwr hefyd fod yn arbennig o ymwybodol o beryglon defnyddio sain nad yw wedi'i drwyddedu'n iawn. Gall Trwyddedu Cerddoriaeth PRS fod yn hynod o ddrud, felly buasem yn cynghori bod gorsafodd teledu myfyrwyr yn ystyried defnyddio cerddoriaeth di-freindal. Er enghraifft, mae www.audionetwork.com a www.bensound.com cynnig amrywiaeth o opsiynau.

Ar gyfer fideo a delweddau, mae opsiynau eraill (di-dâl) yn cynnwys:

- Flickr (comin creu yn unig);
- Wikimedia;
- Gwasgaru;
- CreateHerStock;
- Videvo;
- Gwasgaru;
- Pixabay;
- Pexels;
- Menywod Croenddu mewn Technoleg.

Mae cyfryngau myfyrwyr hefyd mewn sefyllfa dda i greu eu cynnwys eu hunain - sydd yn aml yn llawer gwell na delweddau stoc ac yn fwy tebygol o fod yn arbennig ar gyfer y stori.

Os canfyddir cynnwys, nad yw wedi'i glirio, mae peryg y bydd rhaid i orsafoedd dalu dirwy - a allai fod yn daladwy gan yr UM, oherwydd strwythurau a systemau llywodraethiant gorsafoedd teledu Myfyrwyr.

Awgrymiadau ffrydio byw ar gyfer gorsafoedd

Oes rhaid iddo fod yn fyw?

Cyn dechrau paratoi ar gyfer darlledu, gofynnwch i chi'ch hun a oes raid i'r rhaglen gael ei ffilmio'n fyw. Dylai ddiwallu un o ddau nod drwy gael ei ffilmio'n fyw:

naill ai i gynhyrchu'r cynnwys gorau neu roi'r profiad gorau i'ch gorsaf. Nid oes raid i ddigwyddiadau hyd yn oed gael eu ffilmio'n fyw. Weithiau gall ffilmio fel pe bai'n fyw neu greu fideo o uchafbwyntiau a olygwyd yn ystod y digwyddiad fod yn fwy effeithiol a llawer haws.

Beth yw prif amcanion y cynhyrchiad?

Mae angen ichi benderfynu beth rydych chi am ei gyflawni gyda'ch darllediad byw.

Ydych chi'n cynhyrchu un rhaglen annibynnol? Rhaglen fyw, arbennig? Cyfres fyw wythnosol neu fisol? Neu'n rhoi sylw penodol i ddigwyddiad? Ydych chi'n ceisio cyrraedd cynulleidfa wahanol, ac os felly a fydd amseriad y darllediad yn addas ar gyfer y gynulleidfa hon? Neu a ydych chi'n ceisio ymestyn gallu eich gorsaf a rhoi profiad newydd a chyffrous i'ch aelodau?

Beth yw'r gofynion?

Os ydych chi'n ffilmio digwyddiad, a oes unrhyw ofynion gan y trefnwyr? Er enghraifft, os yw'n ganlyniadau etholiadau Undeb y Myfyrwyr neu hustyngau, a oes unrhyw reolau ynghylch tegwch a didueddrwydd y mae angen i chi gadw atynt? Os ydyw'n ddadl neu'n rhaglen ar ffurf *Question Time*, a oes gennych chi gynlluniau ar waith i atal unrhyw gynnwys dadleuol neu a allai fod yn enllibus rhag cael ei ddarlledu?

Cynlluniwch bopeth

Nid oes gan ddarllediad byw lawer o siawns o ddigwydd os nad yw'n bodoli ar bapur ymlaen llaw. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnal ymweliadau safle ar gyfer unrhyw leoliadau nad ydych yn gyfarwydd â nhw, gan y bydd angen i chi gynllunio eich safleoedd camera ac oriel, o ble gallwch chi gael mynediad i bŵer a chysylltiad â'r rhyngwyd a.y.b. Dylech nodi unrhyw westeion posibl ac ysgrifennu rhai cwestiynau ar eu cyfer.

Mae cyfathrebu'n hanfodol

Nid oes unrhyw beth yn waeth mewn darllediad byw na chyflwynydd yn cael ei adael ar yr awyr heb unrhyw beth i'w ddweud neu ddim yn gwybod pa mor hir y mae'n rhaid iddynt siarad. Cyfathrebu yw'r rhan bwysicaf o ddarllediad allanol. Mae angen i'r cyfarwyddwr allu cyfathrebu â phawb, fel eu bod i gyd yn gwybod pryd byddwch chi'n mynd yn fyw, pryd byddwch yn torri i ddarn a recordiwyd yn barod, pryd byddwch yn mynd yn ôl i'r stiwdio neu faint o amser y mae angen iddyn nhw ddal ati i lenwi amser.

Ymarferwch

Os yw'ch darllediad byw yn rhan o gyfres fyw wythnosol gyda thîm rheolaidd, yna mae'n ddigon posib na fydd angen i chi ymarfer pob rhaglen unigol yn llawn.

Fodd bynnag, bydd o gymorth i ymarfer unrhyw eitemau newydd neu gysylltiadau unigol sy'n wahanol. Os ydych chi'n cynhyrchu sioe neu ddigwyddiad untro, neu os oes gennych griw newydd, mae ymarferion yn hanfodol.

Rhowch gynnig ar eich cyfarpar technegol cyn y diwrnod darlledu

Hyd yn oed os na allwch chi gael mynediad i'ch lleoliad, dylech osod cymaint o'ch offer ag y bo modd yn unrhyw le y gallwch ddod o hyd iddo i'w wirio.

Prawf ffrydio o'r lleoliad

Os ydych chi'n darlledu o leoliad newydd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gallu ffrydio'n fyw o'r lleoliad. Gwiriwch eich ffrwd gan ddefnyddio'r un soced rhwydwaith y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer y darllediad cywir i sicrhau eich bod y cyfeiriad IP cywir yn cael ei neilltuo i chi, bod y soced ar y VLN iawn ac nid oes cyfyngiadau o ran porth na mynediad a fydd yn eich atal rhag cysylltu â'ch gweinydd ffrydio.

Dewiswch y gwesteion cywir a gwnewch eich ymchwil

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis gwesteion sy'n gallu siarad am y pwnc perthnasol am amser hir. Mae hyn yn golygu y gallwch chi lenwi unrhyw fylchau a achosir gan oedi neu broblemau technegol gyda sgwrs yn hytrach na gorfod defnyddio eich VT i gyd neu fynd oddi ar yr awyr. Gwnewch eich gwaith ymchwil a byddwch yn ymwybodol o unrhyw bynciau nad ydynt efallai eisiau siarad amdanynt, neu o bosib does ganddyn nhw ddim caniatâd i siarad amdanynt. Briffiwch eich gwesteion cyn mynd ar yr awyr lle bo modd gwneud hynny.

Ymlaciwch a mwynhewch y profiad

Darledu byw yw un o'r pethau mwyaf dirdynnol y gall gorsaf deledu myfyrwyr geisio ei wneud, ond mae gofidio a theimlo straen yn sicr o wneud hynny'n anoddach. Mwynhewch y profiad, dysgwch oddi wrth eich camgymeriadau a gwnewch y sioe nesaf yn well.

Cytundeb Cyfryngau Myfyrwyr

Mae rhai pethau sylfaenol i'w gwneud i sicrhau eich bod wedi gosod y sylfeini cywir ar gyfer cyfryngau myfyrwyr:

Gwiriwch Gyfansoddiad eich UM a'ch polisïau i sicrhau eu bod yn cynnwys strwythurau trefniadol ar gyfer delio â materion a allai godi yn sgil cyfryngau myfyrwyr. Dylai'r Cyfansoddiad egluro'r lefel o reolaeth a dibyniaeth rhwng yr UM a chyfryngau myfyrwyr, a dylai hyrwyddo annibyniaeth i fyfyrwyr newyddiadurwyr.

Rydym yn argymhell bod gennych Gytundeb Cyfryngau Myfyrwyr sy'n amlinellu disgwyliadau undeb y myfyrwyr a chyfryngau myfyrwyr fel ei gilydd. Dylid ysgrifennu hyn er budd y naill barti a'r llall, a dylid ei gytuno gan fwrdd ymddiriedolwyr yr UM. Efallai y bydd yn ddefnyddiol hefyd i fynd â hyn ger bron Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol / Cyngor yr UM, a sicrhau bod eich sefydliad yn ymwybodol o'r ddogfen. Bydd natur y ddogfen yn amrywio, ond yn ddelfrydol dylai gynnwys:

Cyllido

- Faint o gyllid y mae cyfryngau myfyrwyr yn ei dderbyn gan yr UM?
- At beth mae'r arian?
- Pryd fydd y swm hwn yn cael ei adolygu?
- A oes unrhyw gyfyngiadau neu reoliadau yn perthyn i'r arian yma?
- A oes unrhyw gyfyngiadau ar gyhoeddiadau sydd am sicrhau cyllid ychwanegol trwy ddigwyddiadau neu hysbysebu?
- A oes cyfyngiadau o ran y mathau o hysbysebwy a ganiateir?
- Pwy sydd â'r gair olaf yn hyn o beth?
- A fydd yr UM yn helpu gyda rheoli hysbysebu?

Rheolaeth olygyddol

- Faint o reolaeth olygyddol (os o gwbl) sydd gan yr UM dros gyfryngau myfyrwyr?
- Pa staff / swyddogion sydd â'r rheolaeth olygyddol hon neu a oes panel?
- Beth yw'r broses ar gyfer cymeradwyo erthyglau?
- Pa berthynas sydd gan gyfryngau myfyrwyr â'r brifysgol? (Dylent o leiaf fod â'r hawl i ateb ond ni ddylai fod ganddynt reolaeth olygyddol)
- Sut fydd yr UM yn sicrhau bod annibyniaeth olygyddol yn cael ei chynnal?

Ymddygiad

- Pa god ymddygiad a / neu safonau moesegol ddylai cyfryngau myfyrwyr eu dilyn? (Argymhellir Côt Ymddygiad yr NUJ, uchod)
- Pa reolau perthnasol eraill ddylai cyfryngau myfyrwyr eu dilyn?
- Pa bwerau sydd gan bob parti i ddal ei gilydd i gyfrif?

Cwynion

- Beth yw'r weithdrefn gwyno ar gyfer unigolion neu sefydliadau sydd am gwyno ynglŷn â rhywbeth a gynhychir gan gyfryngau myfyrwyr?
- I bwy maen nhw'n cwyno?
- Sut caiff hyn ei reoli, ei godi i'r lefel nesaf, ei adrodd a'i ddatrys?
- Sut yr ymdrinnir ag eglurhad?

Anghydfod

- Sut mae anghydfod rhwng yr UM a chyfryngau myfyrwyr yn cael ei reoli?
- A oes unrhyw gorff annibynnol i oruchwylio'r broses hon neu i ddatrys unrhyw anghydfod?

Pa mor gryf bynnag yw'r berthynas rhwng undeb y myfyrwyr a chyfryngau myfyrwyr, mae yna wastad botensial am anghytuno ac anghydfod - mewn sawl ffordd, bydd lefel o ymgysylltu a dadlau adeiladol yn naturiol, o gofio'r gwahanol rolau y maent yn eu chwarae.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol i'r naill sefydliad a'r llall bod unrhyw anghytuno neu anghydfod yn gallu digwydd mewn modd sy'n adeiladol, fel nad ydynt yn cynyddu ac y gellir eu datrys yn gyflym. Dylech fod â rhywun ar gael (rhywun mae'r naill barti a'r llall wedi cytuno arno ymlaen llaw) a all helpu i gymodi neu gymrodeddu os bydd unrhyw anghytundeb yn parhau.

Dylent fod naill ai fod yn aelod o'r NUJ, aelod o'r undeb llafur, cyfreithiwr â phrofiad o'r cyfryngau, neu rywun o UM arall sydd â phrofiad o'r cyfryngau.

Deall difenwi - yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Difenwi yw unrhyw gyfathrebu ffug a wneir yn fwriadol, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n niweidio enw da unigolyn, gan leihau'r parch, yr hyder neu statws a roddir i'r person hwnnw, neu sy'n achosi barn neu deimladau sarhaus, gelyniaethus neu atgas tuag at y person.

The Free Dictionary, Farlex Inc.

Cyfeirir at ddifenwi ar ffurf ysgrifenedig fel enllib a gelwir datganiad ar lafar yn athrod. Mae angen i fyfyrwyr newyddiadurwyr fod yn ymwybodol o enllib a difenwi, er mwyn osgoi problemau cysylltiedig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gwarchodir cyfryngau myfyrwyr nad ydynt yn gwbl annibynnol o undeb y myfyrwyr, o dan bolisi yswiriant yr undeb myfyrwyr hwnnw. Mae hawliadau sy'n cael eu trin o dan y prif gynllun yswiriant sydd mewn lle ar gyfer undebau myfyrwyr yn dangos nad yw cyfryngau myfyrwyr yn ddiogel rhag y math hwn o sylw. Gwiriwch y manylion a'r math o yswiriant sydd gennych chi'n lleol.

Bydd rhai meysydd yn peri nwy o risg nag eraill, er enghraifft, rhai agweddau ar newyddiaduraeth ymchwiliol a materion cyfoes. Byddwch yn ymwybodol hefyd o ddatganiadau sy'n cael eu cyhoeddi ar eich gwefan a chadw at gyfraith hawlfraint. Mae dulliau cyfreithiol y gallwch eu defnyddio i gasglu gwybodaeth ar gyfer straeon yn cynnwys y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun. Dylai eich cyhoeddiad neu undeb myfyrwyr ddarparu hyfforddiant priodol fel eich bod yn gyfarwydd â'r meysydd mwy peryglus.

Mae amrywiaeth o sefydliadau cysylltiedig:

- Mae gan wefan academi'r BBC ystod o wybodaeth y gallwch chi bori drwyddo: bbc.co.uk/academy/journalism/article/art20130702112133651
- Ymgyrch dros Ryddid Gwybodaeth: cfoi.org.uk
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: ico.org.uk/for-organisations/media

Gwarchodwch eich deunydd yn ddiogel

Dylai'ch prosesau golygyddol gynnwys gweithdrefn a chynllun gweithredu y mae angen i fyfyrwyr newyddiadurwyr ei dilyn mewn amgylchiadau lle mae darn wedi cael ei ddynodi fel rhywbeth a allai arwain at achos llys. Dylai hyn gynnwys pryd y dylid cyfeirio deunydd at gyfreithwyr neu newyddiadurwr annibynnol (a ddylai fod ag o leiaf dair blynedd o brofiad yn y diwydiant). Mae templed enghreifftiol i'w weld ar dudalennau 23 a 24.

Yn achos unrhyw ffotograffau a lluniau a ddefnyddir yn eich cyhoeddiadau, gwnewch yn siŵr bod eich bod yn cael gafael ar bob trwyddedau a chaniatâd gan ddeiliaid hawlfraint cyn eu cyhoeddi, a bod y sawl a greodd y gwaith yn cael cydnabyddiaeth.

Ar gyfer pob darllediad byw, a yw'r meysydd sydd i'w trafod neu eu hadolygu yn cael eu trafod ymlaen llaw i wirio am unrhyw broblemau cyfreithiol posibl?

Ydych chi'n darparu dolen hygyrch i ddefnyddwyr roi gwybod i chi am broblemau yn ymwneud â'r cynnwys sy'n ymddangos ar y wefan?

Oes gennych chi weithdrefnau ar gyfer datrys y rhain? Gallai'r rhain gynnwys egluro'r cynnwys, tynnu'r eitem yn ôl neu ei dileu.

Hyfforddiant a phrofiad

Sut allwch chi sicrhau y gallwch chi ganfod risgiau cyfreithiol wrth fynd ati i lunio adroddiad?

Gall strwythur grwpiau cyfryngau myfyrwyr amrywio, gyda llawer o unigolion yn gyfrifol am ysgrifennu deunydd, ond mae'n bwysig cael golygyddion sydd wedi cael hyfforddiant mewn cyfraith sy'n ymwneud â'r cyfryngau. Mae hyn hefyd yn wir yn achos y prif olygydd ac aelodau eraill o staff sy'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau terfynol. Mae NCTJ (Cyngor Cenedlaethol Hyfforddi Newyddiadurwyr) a Chymdeithas y Wasg yn cynnal cysiau ar gyfraith y cyfryngau, ond efallai y byddwch hefyd yn gallu manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd sydd gan eich undeb myfyrwyr neu eich sefydliad eisoes.

Gellir darparu hyfforddiant yn fewnol gan aelod staff sydd wedi cael hyfforddiant yng nghyfraith y cyfryngau neu sy'n meddu ar gymwysterau perthnasol. Os oes gan eich sefydliad adran newyddiaduraeth neu gyfryngau, yna mae hwnnw'n lle da i ofyn am arweiniad a chymorth.

Y peth pwysig i'w gofio yw bod pwy bynnag sy'n gyfrifol am symud erthyglau ymlaen a'u gwirio yn meddu ar yr wybodaeth sydd ei hangen. Argymhellir bod o leiaf un o'r unigolion hyn yn aelod staff parhaol, sy'n golygu nad oes person newydd yn y rôl bob blwyddyn. Fel mesur ychwanegol, gallech sefydlu panel cyfryngau sy'n cynnwys ymddiriedolwyr, y swyddog cyfryngau / cyfathrebu a proffesiynwyr allanol o fewn y diwydiant cyfryngau, a fyddai'n rhoi cyfarwyddyd penodol ar unrhyw faterion.

Ni fydd llawer o gwmnïau yswiriant yn darparu indemniad heb fod y math hwn o arolygaeth ar waith. Heb yswiriant priodol, mae undeb y myfyrwyr a myfyrwyr unigol sy'n gweithio mewn cyfryngau wedi'u gadael heb unrhyw amddiffyniad. Mae'n werth nodi, hyd yn oed pan fo canghennau o gyfryngau myfyrwyr yn hyderus nad oes yr un o'r deunydd yn ddifennol, a gallant gyfiawnhau'r safbwynt a wnaed ar fater penodol, gall trydydd parti wneud hawliad, a byddai yswiriant mewn lle i ddarparu amddiffyniad yn ogystal â thalu'r costau, gan ddiwynnu ar delerau ac amodau'r polisi.

Cynllun gweithredu enghreifftiol sy'n rhan o'r Broses Olygyddol ar gyfer cyhoeddiad cyfryngau myfyrwyr

Dim ond canllaw yw'r amseru a ddefnyddir yma. Mae'r terfynnau amser yn dibynnu ar yr hyn y gall pob undeb myfyrwyr unigol ymrwymo iddo, gan ystyried dibyniaeth bosib ar gymorth allanol, e.e. cyfreithiwr neu arbenigwr arall. Yn achos newyddion sy'n digwydd yn agos iawn at y dyddiad cyhoeddi, mae'n bosib y byddwch am osod amserlen fwy tynn, os yw hynny'n bosibl. Dim ond mewn achos lle nodwyd bod potensial i eitem fod yn ddifennol y mae angen dilyn y broses hon.

Gweithredu	Terfyn amser
Tynnwch sylw at erthyglau a allai o bosib beri risg ac ymgynghorwch ag arbenigwyr (neu'r panel cyfryngau)	Heb fod yn hwyrach nag wythnos cyn ei gyhoeddi
Dylid anfon drafft terfynol o'r erthygl at y panel cyfryngau (neu arbenigwyr) gyda thystiolaeth ategol sy'n cadarnhau'r cynnwys	O fewn 24 awr o'r erthygl yn cael ei amlygu i'r panel am y tro cyntaf

Parhad

Wythnos gyhoeddi	
Mae'r panel cyfryngau (neu arbenigwyr) yn penderfynu a oes angen cyngor cyfreithiol	Pedwar diwrnod cyn cyhoeddi - 10 am
Y papur i e-bostio syniadau amgen ar gyfer yr erthygl at y panel cyfryngau	Pedwar diwrnod cyn cyhoeddi - 10 am
Panel cyfryngau yn ceisio cyngor cyfreithiol (os oes angen)	Pedwar diwrnod cyn cyhoeddi - diwedd y dydd
Papur i anfon ceisiadau hawl i ateb at bartïon i'w galluogi nhw i ymateb / gwneud sylwadau ar yr erthygl arfaethedig	Tri diwrnod cyn cyhoeddi - canol dydd
Y papur i fod ag erthygl wrth gefn yn barod	Tri diwrnod cyn cyhoeddi - diwedd y dydd
Penderfyniad gan y panel cyfryngau ynghylch a ellir cyhoeddi'r erthygl heb ei diwygio, wedi'i diwygio, neu a ddylid defnyddio'r erthygl wrth gefn	Dau ddiwrnod cyn cyhoeddi - erbyn canol dydd
Os gellir cyhoeddi'r erthygl derfynol, ond gyda diwygiadau, anfonir ail-ddrafft at y panel cyfryngau	Dau ddiwrnod cyn cyhoeddi - diwedd y dydd
Y Panel Cyfryngau yn cadarnhau y gellir cyhoeddi'r erthygl	Y diwrnod cyn cyhoeddi



Daw'r cyngor hwn gan Wasanaethau Yswiriant Endsleigh Cyf. Endsleigh yw'r brocer yswiriant masnachol ar gyfer llawer o undebau myfyrwyr ledled y DU, ac mae gan y cwmni dros 25 mlynedd o brofiad yn y sector hwn. Os oes gennych chi gwestiynau penodol ynglŷn â'r canllawiau a ddarperir uchod, siaradwch â'r person sy'n gyfrifol am yswiriant yn eich undeb myfyrwyr, fel y gellir cyfeirio'r rhain at y pwynt cyswllt priodol yn Endsleigh.

Cyngor a hyfforddiant ar newyddiaduraeth

Mae amrywiaeth o sefydliadau a all helpu gyda chyngor, gwybodaeth, cymorth a hyfforddiant.

Cyngor a hyfforddiant ar newyddiaduraeth

Uwchgynhadledd y Myfyrwyr UCM ac Amnest Rhyngwladol

Bob blwyddyn, mae UCM yn cynnal Uwchgynhadledd Cyfryngau Myfyrwyr mewn partneriaeth ag Amnest Rhyngwladol y DU.

Mae'r digwyddiad yn rhoi cyfle i fyfyrwyr newyddiadurwyr gwrdd â phroffesiynwyr lefel uchel sy'n ymwneud â phob disgyblaeth newyddiadurrol - gan gynnwys sylwadau, chwaraeon, ymchwilio, adloniant, materion tramor a gwleidyddiaeth. Mae'r digwyddiad yn cynnwys sesiynau ar deledu a radio, is-olygu a dylunio, dod o hyd i refeniw hysbysebu moesegol, a rheoli ystafell newyddion myfyrwyr yn ogystal â chrosawu prif siaradwyr sy'n adnabyddus yn eu meysydd penodol.

Mae'r digwyddiad hefyd yn rhoi sylw i ffyrdd y gall myfyrwyr ddechrau gyrfa mewn newyddiaduraeth broffesiynol.

Myfyrwyr Newyddiadurwyr UCM

Gan ddechrau yn 2013, mae UCM yn recriwtio newyddiadurwyr sy'n fyfyrwyr ar eu staff yn flynyddol i gynhyrchu erthyglau newyddion a nodwedd ar fywyd myfyrwyr. Gwahoddir pob newyddiadurwr i ysgrifennu erthyglau ar un o bedair thema: myfyrwyr yn y gymuned, myfyrwyr cynaliadwy, ffordd o fyw myfyrwyr a safbwyntiau myfyrwyr.

Mae'r newyddiadurwyr a ddewisir yn derbyn:

- £400 am ddau ddarn y mis dros 12 mis;
- Aelodaeth Gyswllt i Fyfyrwyr o'r NUJ;
- hyrwyddo pob darn drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol UCM;
- anfonir eich darnau at y cyfryngau perthnasol gyda chydnyddiaeth briodol;
- proffil ar-lein gydol y flwyddyn;
- adborth ac arweiniad ar eu gwaith i helpu datblygu sgiliau newyddiaduraeth.

Gallwch ddarllen y darnau gan ein myfyrwyr newyddiadurwyr [yma](#).

Ffynonellau eraill ar gyfer hyfforddiant

Mae copi cyfoes o *McNae's Essential Media Law* ar gyfer newyddiadurwyr hefyd yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer unrhyw ystafell newyddion myfyrwyr.

Gallwch ganfod mwy am gyfleoedd hyfforddi'r NUJ drwy [fynd i www.nuj.org.uk/work/training/](http://www.nuj.org.uk/work/training/)

Y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr :

www.nctj.com/

Creative Skillset, cyngor sgiliau sector y diwydiannau creadigol: www.skillset.org/

Cymdeithas y Wasg : www.pressassociation.com/



Cymdeithas y Wasg (PA) yw'r asiantaeth newyddion genedlaethol ar gyfer y DU ac Iwerddon. *PA Training* yw prif gwmni hyfforddiant newyddiaduraeth a chyfryngau Ewrop;

mae'n darparu rhaglenni dysgu i gleientiaid ar draws y byd.

Journo Resources: www.journoresources.org.uk



Mae Journo Resources yn adnodd di-elw, y gallwch ei ddefnyddio'n ddi-dâl, sy'n casglu ynghyd adnoddau a chyngor manwl am ddim i fyfyrwyr a graddedigion diweddar ym mhob maes newyddiaduraeth a'r rheiny sy'n chwilio am swyddi.

Maen nhw hefyd yn cynnal sesiynau siarad a digwyddiadau ledled y wlad, gan gynnwys rhai mewn undebau myfyrwyr ac ar gampysau prifysgol.

Cymdeithas Genedlaethol Teledu Myfyrwyr (NaSTA): nasta.tv/



Mae NaSTA yn bodoli nid yn unig i ddod â gorsafoedd teledu myfyrwyr newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli at ei gilydd o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, ond hefyd i ddarparu'r llwyfan lle gall gorsafoedd ofyn i'w gilydd am gyngor,

goresgyn problemau a meithrin cymuned o fyfyrwyr a gorsafoedd teledu myfyrwyr o'r un meddylfryd o bob rhan o'r wlad.

Yn y bôn, rhwydwaith ar gyfer cefnogaeth yw NaSTA. Rydym yn llwyfan ar gyfer myfyrwyr a gorsafoedd ledled y wlad i helpu ei gilydd ac i roi adborth, cyfnewid syniadau ac ymdrechu i wella, sydd o fantais i unrhyw orsaf newydd.

Cymdeithas Radio Myfyrwyr (SRA): www.studentradio.org.uk/



Cymdeithas Radio Myfyrwyr yw'r corff cynrychioli a gaiff ei redeg gan wirfoddolwyr sy'n cefnogi ac yn gweithredu ar ran cymuned radio myfyrwyr y DU.

Rydym ni'n cynrychioli unrhyw orsaf radio sydd wedi'i lleoli yn, neu sy'n gysylltiedig â man addysg (megis ysgol, coleg neu brifysgol), neu sydd â myfyrwyr yn cyfranogi (gan gynnwys prosiectau ieuencid a gorsafoedd sy'n cael eu rhedeg gan gynghorau, cymunedau neu elusennau lleol).

Rydym yn bodoli i annog a hwyluso cyfathrebu rhwng gorsafoedd myfyrwyr, i'w helpu i ddatblygu, ac i gynnig cefnogaeth a chyngor i orsafoedd newydd.

Cymdeithas Cyhoeddiadau Myfyrwyr (SPA): www.spajournalism.co.uk



Cewch ymuno â Chymdeithas Cyhoeddiadau Myfyrwyr (SPA) ac am ddim; mae'n cynnwys papurau newydd myfyrwyr a safleoedd ar y we, cylchgronau a chyhoeddiadau adloniant. Fe'i rheolir gan bwyllgor o bum gwirfoddolwr, sydd i gyd yn fyfyrwyr newyddiadurwyr ar hyn o bryd,

neu maen nhw wedi graddio'n ddiweddar. Ei bwrpas yw dod â'r cyhoeddiadau myfyrwyr hyn ynghyd er mwyn iddynt allu rhannu hyfforddiant, arfer gorau, a chydabod llwyddiannau ein holl fyfyrwyr. Mae SPA yn cynnal cynhadledd genedlaethol flynyddol, yn ogystal â digwyddiadau rhanbarthol ar gyfer cyhoeddiadau myfyrwyr. Mae'r rhain yn gymysgedd o hyfforddiant a rhwydweithio.

Manylion cyswllt am gyngor a chymorth

Cysylltwch ag UCM


Am unrhyw gyngor neu gymorth, anfonwch e-bost at pressoffice@nus.org.uk neu ffoniwch 07866 695010 Gallwch ddilyn cyfryngau myfyrwyr UCM ar twitter: [@NUSStudentMedia](https://twitter.com/NUSStudentMedia) neu ewch i'r wefan: www.nus.org.uk


Cysylltwch â'r NUJ

Adran ymgyrchoedd a chyfathrebiadau NUJ

E-bost: campaigns@nuj.org.uk neu ewch i'r wefan: www.nuj.org.uk

Mae cymuned Gweithle Facebook ar gyfer staff, swyddogion a gwirfoddolwyr mewn cyfryngau myfyrwyr: [Nus-uk.facebook.com/groups/1342434459193515/](https://www.facebook.com/groups/1342434459193515/). Ymunwch i siarad ag eraill sydd â diddordeb mewn cyfryngau myfyrwyr.





Macadam House
275 Gray's Inn
Road Llundain
WC1X 8QB

t 0845 5210 262

www.nus.org.uk

nus

national union of **students**